




Llun o NASA © 2016 Intermap Earthstar Geographics SIO © National Biodiversity Network

Pencampwr Rhywogaeth



Peredur Owen Griffiths MS
Plaid: Plaid Cymru
Bro: Dwyrain De Cymru



Mwy o wybodaeth

- https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/mammals/hazel-dormouse

Prif aelod

Wildlife Trusts Wales
Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Pathew

Disgrifiad a statws

Mae'r mamaliaid bychain hyn yn ddringwyr ystwyth ac yn greaduriaid nosol yn bennaf, sydd pur anaml i'w gweld. Maent yn byw mewn coetiroedd collddail, gwrychoedd a llwyni trwchus a gallant dreulio eu bywydau cyfan i fyny yn y canghennau heb hyd yn oed gyffwrdd y ddaear. Mae'r Pathew yn bwyta blagur, cnau cyll, aeron a phryfed. Mae'n creu nyth dros yr haf o risgl gwyddfid ac yn y nyth honno bydd y fenyw yn rhoi genedigaeth i hyd at saith o rai bach. Mae'r pathew yn gaeafgysgu mewn nyth drwchus wedi'i chreu mewn twll mewn coeden neu lecyn tebyg cysgodol.

Bygythiadau

Mae'r pathew yn araf yn magu ac yn wael am wasgaru ac, yn gyffredinol, mae'n byw mewn coetiroedd hŷn sydd ag isdyfiant wedi'i ddatblygu'n dda, wedi'i gysylltu'n aml gan hen wrychoedd. Fodd bynnag, mae'r cynefin yma wedi cael ei golli a'i ddarnio i raddau helaeth iawn o ganlyniad i amaethu a datblygu dwys (gan gynnwys ffyrdd neu danreoli coetiroedd). Gall hyn arwain at boblogaethau ynysig, heb fod yn hyfyw. Ym mwyafrif y coetiroedd yng Nghymru, mae'r gwaith rheoli er mwyn cynnal isdyfiant sydd wedi'i ddatblygu'n dda wedi dod i ben, ac felly maent yn llai addas i'r pathew. Mae rheolaeth amhriodol ar wrychoedd, neu eu tynnu, wedi golygu na fydd coedwigoedd sydd wedi colli eu pathewod yn cael eu hailboblogi. Nid ydym yn gwybod beth fydd effaith newid hinsawdd ar y pathew yn y dyfodol ond gallai fod yn arwyddocaol.

Gweithredu angenrheidiol

- Lleihau a gwyrdroi'r patrwm o golli a darnio cynefinoedd – mwy o ardaloedd, ardaloedd mwy a gwell, ac ardaloedd unedig.
- Cyflwyno rheolaeth briodol mewn cynefinoedd addas.

Cyswllt Amgylchedd Cymru (Elusen Gofrestredig.1022675) © 2025 Cyswllt Amgylchedd Cymru






Image courtesy of NASA © 2016 Intermap Earthstar Geographics SIO © National Biodiversity Network

Species Champion



Peredur Owen Griffiths MS
Party: Plaid Cymru
Region: South East Wales



More information

- https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/mammals/hazel-dormouse

Lead members

Wildlife Trusts Wales
Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Dormouse

Description and status

These small mammals are agile climbers, mainly nocturnal and are very rarely seen. They live in deciduous woodland, hedgerows and dense scrub and can spend their entire lives up in the branches without ever touching the ground. The dormouse eats buds, hazelnuts, berries and insects. It builds summer nests of stripped honeysuckle bark in which the female will give birth to up to seven young. Dormice hibernate during the winter months, in a dense nest built in a tree cavity or similar, sheltered place.

Threats

Dormice are slow breeders and poor dispersers and generally live in older woodlands with a well-developed understory often linked by old hedgerows. However, there has been a significant loss and fragmentation of this habitat as a result of agricultural intensification and development (including roads or under-management of woodlands). This can result in isolated and non-viable populations. In the majority of woodlands in Wales the management required to maintain a well-developed understory has ceased, making them less suitable for dormice. Inappropriate management of hedgerows, or their removal, has meant that woods that have lost their dormice will not be repopulated. The future effect of climate change on dormice is unknown but could be significant.

Actions required

- Reduce and reverse the habitat loss and fragmentation – more areas, bigger areas, and better joined up areas.
- Introduction of appropriate management within suitable habitat.

Wales Environment Link (Charity No.1022675) © 2025 Wales Environment Link